



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofnodi Mesuriadau Canlyniadau Personol

Canlyniadau Personol Rhan 3: (Cyhoeddwyd o dan
y Dull Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol)



OGL

ISBN digidol 978-1-4734-8129-9

© Hawlfraint y Goron 2016

WG30426

Cofnodi Mesuriadau Canlyniadau Personol (Cyhoeddwyd o dan y Dull Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol)

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn darparu fframwaith ar gyfer cofnodi a mesur cynnydd yn erbyn canlyniadau personol yn ystod y broses o ofalu am unigolion a'u cefnogi. Dim ond i unigolion sy'n gymwys i gael cynllun gofal a chymorth a gofalwyr sy'n gymwys i gael cynllun cymorth y mae'r dull sgorio hwn yn gymwys o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caiff y broses ei mesur yn erbyn canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anghenion cymwys mewn cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth.

Mae'r canllawiau hyn yn adeiladu ar y rhaglen beilot a arweiniwyd gan yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) i gofnodi ac adrodd yn erbyn canlyniadau personol. Cyhoeddir yr adroddiad ar y canllawiau ar wefan SSIA.¹

Er mwyn cwblhau'r rhaglen beilot, darparodd SSIA ac Uned Ddata Llywodraeth Leol hyfforddiant i'r awdurdodau lleol hynny dan sylw. Bydd rhaglen yn cyflwyno hyfforddiant ar y Rhaglen Sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol i'r awdurdodau lleol hynny na chymerodd ran yn y rhaglen beilot yn para tan fis Mai 2017. Argymhellir y dylid rhoi'r agwedd sgorio ar y canllawiau hyn ar waith yn dilyn yr hyfforddiant hwn. Fodd bynnag, disgwylir i awdurdodau lleol weithio gyda phobl mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i baratoi ar gyfer cofnodi canlyniadau personol.

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud ag oedolion a phlant (gan gynnwys gofalwyr ifanc ac oedolion). Mae "person" yn cyfeirio at oedolion a phlant. Disgwylir i awdurdodau lleol ddefnyddio eu barn i benderfynu gyda phwy y dylai'r canllawiau hyn i sgorio canlyniadau personol gael eu defnyddio.

Cyd-destun

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar lesiant a sut y gall gwasanaethau helpu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy. Pobl sydd wrth wraidd y fframwaith newydd hwn a rhaid iddynt fod yn bartneriaid cyfartal yn eu cydberthynas â gweithwyr proffesiynol.

Noda'r Ddeddf fod gan unrhyw unigolyn yr ymddengys fod angen gofal a chymorth arno, neu gymorth yn achos gofalwr, hawl i gael asesiad.

¹ <http://www.ccwales.org.uk/national-assessment-and-eligibility-tool/>

Rhaid i asesiad gofal a chymorth fod yn seiliedig ar sgwrs rhwng yr ymarferydd a'r unigolyn, ac unigolion perthnasol eraill, er mwyn deall y canlyniadau personol y mae'r unigolyn am eu cyflawni a sut y gellir eu helpu i'w cyflawni.

Fel rhan o'r sgwrs, dylai'r ymarferydd:

- asesu ac ystyried amgylchiadau'r person;
- ystyried ei ganlyniadau personol;
- asesu ac ystyried unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny;
- asesu ac ystyried unrhyw risgiau i'r person neu bersonau eraill os na chyflawnir y canlyniadau hynny;
- asesu ac ystyried cryfderau a galluoedd person.

Mae'r Gofynion Cofnodi Cyffredin² ar gyfer Cynlluniau Gofal a Chymorth a Chynlluniau Cymorth a gyhoeddir o dan y dull asesu a chymhwysedd cenedlaethol yn cynnwys y gofynion cofnodi sylfaenol ar gyfer cynllunio gofal yn y fframwaith deddfwriaethol. Awdurdodau lleol fydd yn penderfynu beth yw'r ffordd orau o gasglu'r data penodol.

Mae'r Gofynion Cofnodi Cyffredin yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol gofnodi anghenion cymwys person, ei ganlyniad(au) personol a manylion am y camau i'w cymryd er mwyn helpu'r person i gyflawni ei ganlyniad(au).

Beth yw Llesiant?

Mae Llesiant wrth wraidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae Llesiant yn golygu sicrhau dull seiliedig ar weithio mewn partneriaeth â phobl, rhoi llais cryfach i bobl a mwy o reolaeth dros eu bywyd, a sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i fyw bywyd llawn.

Mae Adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi diffiniad clir o lesiant sy'n gymwys i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Pa ddyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol mewn perthynas â Llesiant?

Mae Adran 5 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf i geisio hybu Llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Mae hyrwyddo Llesiant yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol fod yn rhagweithiol gan geisio gwella'r agweddau hynny ar lesiant wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer person y mae angen gofal a chymorth arno, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

² <http://www.ccwales.org.uk/national-assessment-and-eligibility-tool/>

Mae'r ddyletswydd gyffredinol hon yn gymwys i bob unigolyn a chorff sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac asiantaethau statudol eraill. Mae canllawiau mewn perthynas â'r ddyletswydd llesiant i'w gweld yn y cod ymarfer mewn perthynas â swyddogaethau cyffredinol, a gyhoeddir o dan Ran 2 o'r Ddeddf, a gyhoeddir ar Hyb Dysgu Cyngor Gofal Cymru³.

Mae angen i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â phobl i sicrhau llesiant ac atal yr angen am ofal a chymorth rhag datblygu. Rhennir y cyfrifoldeb am lesiant a dylid grymuso pobl i gyfrannu at gyflawni eu llesiant eu hunain a'u helpu i fod mor annibynnol â phosibl gyda'r lefel briodol o ofal a chymorth.

Beth yw'r canlyniadau llesiant cenedlaethol?

Mae canlyniadau llesiant cenedlaethol yn adeiladu ar y diffiniad o lesiant a nodir yn y Ddeddf ac yn egluro'r hyn y dylai pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt ddisgwyl ei gyflawni er mwyn byw bywyd llawn. Amlinellir y rhain isod.

Diffiniad llesiant yn y Ddeddf	Canlyniadau lles cenedlaethol
<p>Sicrhau Hawliau</p> <p>Hefyd yn achos oedolion: Rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd</p>	<p>Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy lles</p> <p>Gallaf gael gafael ar y wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy lles</p> <p>Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un modd</p> <p>Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno</p> <p>Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried</p> <p>Rwy'n siarad dros fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hynny drosaf</p>
<p>Iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol</p> <p>Hefyd yn achos plant: Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol</p>	<p>Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach</p> <p>Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus</p> <p>Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl</p>

³ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part2en.pdf>

Diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod	Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod Caf gymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod Caf wybodaeth am sut i leisio fy mhryderon
Addysg, hyfforddiant a hamdden	Gallaf ddysgu a datblygu i'm llawn botensial Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi
Cyberthnasau domestig, teuluol a phersonol	Rwy'n perthyn Rwy'n cyfrannu at gyberthnasau diogel ac iach ac yn eu mwynhau
Cyfraniad a wneir i gymdeithas	Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas
Lles cymdeithasol ac economaidd Hefyd yn achos oedolion: Cymryd rhan mewn gwaith	Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddewisaf Nid wyf yn byw mewn tlodi Caf gymorth i weithio Rwy'n cael yr help sydd ei angen arnaf i dyfu i fyny a bod yn annibynnol Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os byddaf am ei gael
Addasrwydd llety	Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy helpu yn y ffordd orau i sicrhau fy lles

Mae rhai canlyniadau llesiant cenedlaethol yn disgrifio'r cyfrifoldebau y mae'n rhaid i bobl eu hunain ymgymryd â nhw er mwyn eu helpu i gyflawni eu llesiant eu hunain. Mae gan bob un y mae angen gofal a chymorth arno a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, a phob gwasanaeth, ei gyfrifoldebau ei hun i wella llesiant.

Bydd canlyniadau lles personol pobl yn ymwneud â'r canlyniadau lles cenedlaethol a nodwyd uchod ac yn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad o ganlyniadau llesiant i'w cyflawni i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt o dan Adran 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r datganiad drafft o lesiant wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru⁴.

Beth yw canlyniad personol?

Mae llesiant yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol, a'r bobl sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy. Bydd pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt am gyflawni canlyniadau sy'n bersonol iddynt hwy a'u hamgylchiadau unigol -

⁴ <http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/statement/?lang=en>

cyfeirir at y rhain fel canlyniadau personol. Canlyniadau personol yw'r hyn y mae unigolyn am ei gyflawni. Fe'u nodir fel rhan o'r broses asesu.

Nodir y broses asesu yn y cod ymarfer mewn perthynas ag asesu anghenion unigolion, a gyhoeddir o dan Ran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a gyhoeddir ar Hyb Dysgu Cyngor Gofal Cymru⁵.

⁵ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part3en.pdf>

Sut mae canlyniadau personol yn ymwneud â chanlyniadau llesiant cenedlaethol?

Rhaid i ganlyniadau personol gysylltu â'r 24 o ganlyniadau llesiant cenedlaethol a nodir yn y datganiad llesiant.

Gall pobl ddisgwyl cyflawni canlyniadau personol sy'n adlewyrchu datganiadau'r canlyniadau llesiant cenedlaethol.

Er enghraifft, mae canlyniad personol 'rwyf am fynd i'r capel bob dydd Sul ar fy mhen fy hun' yn cysylltu â'r canlyniad llesiant cenedlaethol 'Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi'.

Pam y dylai cynnydd tuag at ganlyniadau personol gael ei fesur?

Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 4 (diwallu anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gofal a chymorth gynnwys canlyniadau personol yr unigolyn y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef, a'r camau a gymerir gan y person, yr awdurdod lleol ac eraill er mwyn helpu'r unigolyn i gyflawni'r canlyniadau personol hynny.

Bydd gwybodaeth am gynnydd tuag at ganlyniadau personol yn rhoi gwybodaeth newydd a defnyddiol i awdurdodau lleol er mwyn datblygu a gwella arfer lleol. Gall cynnydd pobl tuag at gyflawni eu canlyniadau personol gael ei grynhoi er mwyn rhoi dealltwriaeth ar y cyd o lesiant cyffredinol person.

Mae cyfuno canlyniadau personol ar gyfer unigolyn yn golygu cyfuno cynnydd person yn erbyn pob un o'i ganlyniadau personol, er mwyn rhoi gwybodaeth i ddeall a yw llesiant person yn gwella'n gyffredinol. Gall hyn gael ei grynhoi ar gyfer pawb mewn awdurdod er mwyn deall a yw llesiant yn gwella ar lefel awdurdod lleol. Nid y diben yw defnyddio canlyniadau personol cyfun er mwyn cymharu perfformiad rhwng awdurdodau.

Gall canlyniadau personol cyfun gael eu defnyddio fel dull i:

- ddylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau ar lefel strategol mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau. Gall y wybodaeth gael ei defnyddio hefyd i fesur yr effaith a gaiff y ddarpariaeth gwasanaeth benodol ar gynnydd tuag at wella canlyniadau personol pobl;
- llywio'r asesiad o'r boblogaeth sydd ei angen o dan adran 14 o'r Ddeddf. Dylai gwybodaeth gael ei defnyddio i nodi'r ffyrdd y caiff anghenion eu diwallu ac i nodi'r amrywiaeth o wasanaethau ataliol a fydd yn cyflawni'r dibenion a nodir yn adran 15(2) o'r Ddeddf, yn eu barn hwy, a lefel y gwasanaethau hynny. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir, a lefel y gwasanaethau hynny, yn cyflawni'r canlyniadau personol sy'n bwysig i bobl;

- rhoi darlun manylach o weithgarwch, tra'n parhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau personol. Gellir defnyddio gwaith dadansoddi a monitro data ansoddol a meintiol i werthuso ansawdd gwasanaethau a ddarperir. Gall dadansoddiad ansoddol o'r wybodaeth a'r naratif a gesglir yn ystod sgysiau â phobl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, roi tystiolaeth ynglŷn â pha agweddau ar wasanaeth a all effeithio ar unigolion.

Ni ddylai gwybodaeth am ganlyniadau personol gael ei defnyddio i ymestyn neu fyrhau'r gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir, ac ni ddylai gael ei defnyddio mewn unrhyw ffordd i gau cynllun gofal a chymorth (neu gynllun cymorth).

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng canlyniadau ac allbynnau a phroses/gweithgarwch?

Mae canlyniadau'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i bobl a'r pethau y mae pobl am eu cyflawni, maent wedi'u personoli ac yn ymwneud ag amgylchiadau unigol person. Mae canlyniadau'n ymwneud â'r effaith neu'r gwahaniaeth y mae person am ei gweld/weld ar ei fywyd.

Mae allbynnau'n ymwneud â'r hyn sy'n cael ei wneud ac maent yn gynnyrch gweithgarwch. Er enghraifft, allbwn asesiad yw darparu gwasanaethau yn aml.

Mae gweithgarwch yn disgrifio'r prosesau a wneir er mwyn sicrhau allbynnau. Er enghraifft, sefydlu neu drefnu darpariaeth o ran gwasanaethau (allbwn).

O ran cofnodi, yr allbynnau yw'r camau i'w cymryd er mwyn helpu'r person i gyflawni ei ganlyniadau. Er enghraifft, yn dilyn asesiad (gweithgarwch), gall person gael gwasanaethau gofal cartref neu seibiannau byr (allbynnau) er mwyn iddo barhau i fyw yn ei gartref ei hun neu gyda'i deulu (canlyniadau).

Cofnodi canlyniadau personol

Diffinio canlyniadau personol

Rhaid i awdurdod lleol gofnodi canlyniadau personol pobl fel y'u nodir yn y Gofynion Cofnodi Cyffredin ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau cymorth. Rhaid i'r canlyniadau personol gael eu cofnodi yng ngeiriau'r person ei hun. Mae cofnodi canlyniadau yng ngeiriau'r person ei hun yn golygu bod y person yn parhau i fod yn berchen ar ei ganlyniadau a'u bod yn ystyrlon iddo.

Caiff cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau personol unigolyn ei fesur a'i gofnodi ar gyfer y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt gydag anghenion cymwys sydd â chynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth gan adran gwasanaethau cymdeithasol eu

hawdurdod lleol. Caiff y broses ei mesur yn erbyn canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anghenion cymwys mewn cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth.

Dylai mesur a chofnodi cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau personol hyn fod yn rhan o'r sgwrs a gaiff rhywun gydag ymarferydd a dylent gael eu hymgorffori ynddi. Dylai'r ymarferydd nodi beth sy'n bwysig i'r unigolyn, beth mae da yn ei olygu, a'r camau mwyaf priodol i'w cymryd i fynd i'r afael â'u canlyniadau personol. Gall y camau hyn gael eu cymryd gan yr awdurdod lleol, pobl eraill a'r person ei hun. Rhaid i'r camau hyn gael eu cofnodi.

Bydd cofnodi camau gyda phobl i fodloni eu canlyniadau personol yn helpu pobl i nodi eu datrysiadau eu hunain, a sicrhau cefnogaeth fel bod yr unigolyn yn berchen ar y camau ac yn eu cyflawni.

Diffinio canlyniadau personol wrth ddiogelu achosion

Mewn rhai achosion y flaenoriaeth fydd diogelu'r unigolyn. Fodd bynnag, bydd angen i ymarferwyr sicrhau y nodir canlyniadau personol perthnasol a realistig ar adeg briodol.

Beth sy'n digwydd os na fydd rhywun yn gallu diffinio ei ganlyniadau personol?

Rhaid i unigolyn fod yn bartner cyfartal yn ei gydberthynas ag ymarferwyr a chyfrannu'n weithgar at y gwaith o benderfynu ar ei ganlyniadau personol. Bydd amgylchiadau'n codi pan fydd unigolyn yn ceisio cymorth gan aelod o'r teulu, ffrind neu un o'r ffurfiau niferus ar eiriolaeth i'w helpu. Mae'n agored i unrhyw unigolyn wahodd rhywun o'i ddewis i'w helpu i gyfranogi'n llawn a mynegi ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau.

Mewn rhai amgylchiadau, os na fydd rhywun yn gallu diffinio ei ganlyniadau personol ei hun, gofynnir i'r unigolion ehangach hyn ddarparu naratif yn mynegi barn yr unigolyn ar ei ran. Mewn rhai amgylchiadau bydd yn amhriodol iddynt wneud hynny.

Mae'r cod ymarfer ar eiriolaeth o dan Ran 10 o'r Ddeddf yn nodi'r swyddogaethau pan fydd yn rhaid i awdurdod lleol, mewn partneriaeth â'r unigolyn, lunio barn ynglŷn â sut y gallai eiriolaeth gefnogi'r broses o ddyfarnu a sicrhau canlyniadau personol unigolyn; ynghyd â'r amgylchiadau pan fydd yn rhaid i awdurdod lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol. Mae'r cod ymarfer mewn perthynas ag eiriolaeth, a gyhoeddir o gan Ran 10 o'r Ddeddf, i'w weld ar Hyb Dysgu Cyngor Gofal Cymru⁶.

Sut mae hyn yn gymwys i asesiadau integredig?

Os yw person wedi bod yn rhan o asesiad integredig, lle mae asesiad yn cynnwys casgliad o asesiadau proffesiynol gwahanol, ac mae'n gymwys ar

⁶ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part10en.pdf>

gyfer gofal a chymorth, yna rhaid i awdurdodau lleol sicrhau y caiff canlyniadau personol mewn perthynas â'r anghenion gofal a chymorth hyn eu nodi a bod cynnydd yn eu herbyn yn cael ei fesur. Cyfrifoldeb yr unigolyn a enwir fel y cydgysylltydd cynllunio gofal a chymorth yw hyn (fel y nodir yn y cod ymarfer ar gyfer Rhan 4 o'r Ddeddf).

A oes uchafswm nifer o ganlyniadau personol fesul person?

Nid oes uchafswm nifer o ganlyniadau ond rhaid iddynt fod yn rhesymol ac ymwneud ag anghenion gofal a chymorth y person.

Efallai y bydd rhai pobl ond am gyflawni un canlyniad personol; efallai y bydd eraill am gyflawni sawl canlyniad personol.

Rhaid i awdurdodau lleol ystyried yr holl ganlyniadau personol y mae unigolyn yn dymuno eu cyflawni, yr adnoddau sydd ar gael a sut y gall yr awdurdod lleol eu helpu i'w cyflawni.

Beth os bydd canlyniad personol yn ymwneud â mwy nag un canlyniad cenedlaethol?

Rhaid i awdurdodau lleol fapio pob canlyniad personol i ganlyniad llesiant cenedlaethol, fel y nodwyd yn y datganiad llesiant. Os bydd canlyniad personol yn ymwneud â sawl canlyniad llesiant cenedlaethol yna'r canlyniad llesiant cenedlaethol mwyaf perthnasol a ddylai gael ei gofnodi.

Er enghraifft, efallai mai canlyniad personol fydd *'Rwyf am fynd i'r capel bob dydd Sul ar fy mhen fy hun'*, a gallai'r canlyniad personol hwn gysylltu â nifer o ganlyniadau personol, er enghraifft:

- Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus;
- Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi;
- Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati;
- Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddewisaf;

Dylai'r canlyniad llesiant cenedlaethol mwyaf perthnasol gael ei ddewis yn seiliedig ar farn ymarferydd yn dilyn trafodaeth â'r unigolyn ynghylch pa angen y mae hyn yn ei gyflawni.

Pa raddfa y dylid ei defnyddio i fesur canlyniadau personol?

Rhaid i raddfa o 0 i 10 gael ei defnyddio i fesur canlyniadau personol, lle mae 0 yn disgrifio'r gwaethaf y gallai fod, a 10 yn disgrifio'r gorau y gallai fod.

Mae'r raddfa sgorio hon yn ddull o ddangos cynnydd cadarnhaol neu negyddol ac ni ddylai gael ei defnyddio fel sgôr ynddo'i hun heb naratif. Mae'r sgoriau yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol, ac yn unigol i berson, ac mae'r naratif yn helpu eraill i ddeall y sgôr bersonol.

Rhaid gofyn i bobl beth mae 0 a 10 yn ei olygu iddynt hwy mewn perthynas â phob un o'u canlyniadau personol; seilir hyn ar eu hamgylchiadau personol. Ni ddiffinnir ystyr pob sgôr (e.e. beth yw ystyr 3) yn genedlaethol gan mai cyfrifoldeb pob unigolyn yw ystyried beth mae 3 yn ei olygu iddo ef, a fydd yn bersonol iddo ef ac yn dibynnu ar ei ganlyniad a'i amgylchiadau unigol.

Beth a ddylai gael ei gofnodi ar gyfer pob canlyniad?

Wrth gofnodi pob canlyniad personol, dylai ymarferwyr weithio gyda phobl er mwyn:

- a. cofnodi beth yw ystyr sgôr o 10;
- b. cofnodi sgôr amcanol a beth yw ystyr y sgôr honno;
- c. cofnodi sgôr sylfaenol.

a. Cofnodi beth yw ystyr sgôr o 10

Bydd hyn yn unigol i berson, ac mewn perthynas â phob canlyniad disgrifiwch beth mae da yn ei olygu i'r person. Rhaid i ystyr sgôr o 10 gael ei gofnodi yng ngeiriau'r person ei hun. Ni fydd pob un am gyflawni sgôr o 10.

b. Cofnodi sgôr amcanol a beth yw ystyr y sgôr honno

Rhaid gofyn i bobl hefyd beth yw eu hamcan, a rhaid i hyn ddisgrifio'r gorau y gall fod (neu'n ddigon da) i berson. Dylai ymarferydd weithio gyda'r person i ddeall beth y gellir ei gyflawni, gan bennu disgwyliadau realistig o sgôr amcanol gyraeddadwy; efallai nad sgôr o 10 fydd hyn.

Dylai'r sgôr amcanol adlewyrchu ble yr hoffai unigolyn fod mewn perthynas â chyflawni ei ganlyniad personol e.e. gall unigolyn gael sgôr amcanol o 7 sy'n adlewyrchu'r gorau y gall fod iddo ar gyfer canlyniad personol penodol.

Rhaid i'r sgôr amcanol a'r naratif gael eu cofnodi yng ngeiriau'r person ei hun.

c. Cofnodi sgôr sylfaenol

Y mesur sylfaenol yw'r man cychwyn mewn perthynas â chanlyniad personol a dylai adlewyrchu ble y mae'r unigolyn yn credu y mae ar y raddfa o 0 i 10.

Dylai mesur sylfaenol gael ei gymryd erbyn i'r cynllun gofal a chymorth ffurfiol, neu'r cynllun cymorth yn achos gofalwr, gael ei roi ar waith. Gall hyn olygu cytuno ar sgorio llinellau sylfaen adeg asesu neu pan ddatblygir cynllun gofal a chymorth (neu gynllun cymorth). Ar adegau eraill, dylai ymarferwyr ddefnyddio amser y tu allan i'r broses ffurfiol i gofnodi sgoriau sylfaenol a'u cofnodi yn ffeil achos y person.

Y person ddylai benderfynu ar y sgôr sylfaenol ei hun (nid yr ymarferydd). Mae ansawdd y gydberthynas rhwng y gweithiwr proffesiynol a'r unigolyn yn hollbwysig wrth benderfynu ar sgôr a disgrifio beth mae hyn yn ei olygu.

Os bydd gan berson fwy nag un canlyniad personol, a oes angen iddo sgorio pob canlyniad?

Oes, dylid sgorio pob canlyniad personol, fel y gellir mesur cynnydd wrth gyflawni pob un o'r canlyniadau personol.

Gall cynnydd tuag at gyflawni pob canlyniad personol amrywio a gall rhai pobl gyflawni rhai canlyniadau personol yn gynt nag eraill.

Beth sy'n digwydd os na fydd rhywun am gymryd rhan yn y broses sgorio?

Os na fydd person am gymryd rhan yn y broses a darparu sgoriau, dylid cofnodi'r rheswm am hyn. Disgwylir i awdurdodau lleol weithio gyda phobl i feithrin cydberthynas lle y gellir defnyddio sgorio fel dull o ddeall gwelliant a mesur cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau personol.

Ni ddylid gofyn i berson sgorio heb ddeall ble yr hoffai fod mewn perthynas â chyflawni'r canlyniad personol ac ystyried beth mae da yn ei olygu.

Mesur cynnydd yn erbyn canlyniadau personol

Pryd y dylid mesur cynnydd yn erbyn canlyniadau personol?

Mae myfyrio ar gynnydd tuag at gyflawni canlyniadau personol yn helpu i benderfynu a yw'r cynllun yn effeithiol neu a oes angen newid. Mae'n rhoi amser i berson fyfyrio ar yr hyn sy'n bwysig iddo ef a'r camau y mae'n eu cymryd i gyflawni ei amcan.

Rhaid i gynnydd tuag at gyflawni canlyniadau personol gael ei fesur. Gwneir hyn mewn adolygiadau ffurfiol. Gellir penderfynu ar gynnydd y tu allan i'r adolygiad ffurfiol o gynllun gofal a chymorth (neu gynllun cymorth i ofalwyr) ac felly nid oes angen i fesuriadau canlyniadau personol bob amser gael eu hymgorffori yng nghynllun gofal a chymorth y person (neu gynllun cymorth ar gyfer gofalwyr). Dylai gwybodaeth am gynnydd a sgoriau fod yn rhan o ffeil achos person.

Er enghraifft, mewn perthynas â phlant a theuluoedd, bydd y broses o fyfyrio ar gamau i'w cymryd yn helpu'r teulu i ddeall a gallu disgrifio eu cyflawniadau yn ystod adolygiad ffurfiol. Dylai sgysiau mewn perthynas â chynnydd a sgorio gael eu cynnal yn anffurfiol cyn adolygiad ffurfiol a'u cofnodi mewn ffeiliau achosion.

Os trafodir cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau personol y tu allan i adolygiad ffurfiol, gall hyn ddigwydd sawl gwaith. Os felly, dim ond y sgôr ddiweddaraf y dylid ei thrafod yn yr adolygiad ffurfiol. Mae'n bwysig i bobl fyfyrto ar eu cynnydd a dylai'r drafodaeth yn eu hadolygiad ffurfiol ganolbwyntio ar y cynnydd a wnaed, yn hytrach na'r sgôr ei hun; mae sgôr yn unigol i berson ac ni ellir ei chymharu.

Rhaid helpu pobl i ystyried y cynnydd y maent yn ei wneud tuag at gyflawni eu canlyniadau personol, yn seiliedig ar y camau y maent yn eu cymryd. Dylai ymarferwyr gofnodi naratif ynghylch cynnydd yng ngeiriau pobl eu hunain.

Ni ddylai'r sgoriau adlewyrchu barn y person am y gofal a'r cymorth a gawsant ond dylai adlewyrchu'r cynnydd a wnaed ganddynt i gyflawni eu canlyniadau personol.

Pwy ddylai fesur y cynnydd?

Y person ei hun ddylai benderfynu ar y cynnydd wrth gyflawni canlyniadau personol oni bai na all wneud hynny.

Mewn rhai amgylchiadau gofynnir i deulu, ffrindiau neu eiriolwyr ddarparu naratif yn mynegi barn yr unigolyn ar ei ran.

Yn yr un modd, os na fydd person yn gallu darparu sgôr cynnydd yn erbyn ei ganlyniad personol, gall aelod o'r teulu, ffrind neu eiriolwr ddarparu sgôr ar ran y person.

Dim ond os yw'n briodol gwneud hynny a bod y rhai sy'n cael eu cefnogi yn gysurus â hyn y dylid mabwysiadu'r dull hwn. Dylai awdurdodau lleol arfer synnwyr cyffredin mewn perthynas ag amgylchiadau person wrth weithredu ar safbwyntiau gofalwyr, aelodau o'r teulu, ffrindiau neu eiriolwyr.

Pa ddull y dylid ei ddefnyddio i fesur cynnydd?

Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio dulliau cofnodi i'w defnyddio'n lleol. Rhaid cyfleu'r broses mewn ffordd hygyrch a gall grwpiau gwahanol o bobl ymateb yn well i ddulliau sgorio gwahanol.

Dylai'r ymarferydd ystyried y dull mwyaf priodol o fesur cynnydd gyda'r unigolyn. Rhaid i unrhyw ddull a ddatblygir i sgorio cynnydd fod yn un y gellir ei drosglwyddo i'r raddfa 0 i 10. Gellir gweld enghreifftiau o ddulliau i gofnodi cynnydd yn Atodiad A.

Delio â dehongliadau gwahanol

Mae diffinio, sgorio a mesur cynnydd canlyniadau llesiant yn benodol i'r unigolyn ei hun. Yr unigolyn sydd yn y sefyllfa orau fel arfer i ddisgrifio ble mae ar y continwmm. Fodd bynnag, bydd achlysuron yn codi pan na fydd yn gallu gwneud hyn.

Mewn achosion o'r fath, dylai'r ymarferydd, oni fydd yn amhriodol gwneud hynny, gytuno ar ganlyniadau, sgoriau neu fesurau perthnasol drwy drafod ag aelod o'r teulu, gofalwr neu eiriolwr. Mae'n bwysig cadarnhau bod y rhai sy'n cefnogi unigolyn yn fodlon gwneud hyn.

Gall hyn o bosibl arwain at ddehongliadau gwahanol o sefyllfa unigolyn. Mewn achosion o'r fath dylai ymarferwyr gofnodi'r rhesymau dros y gwahaniaethau yn y ffeil achos.

Diffinio canlyniadau personol

Os na fydd person yn gallu diffinio ei ganlyniad(au) personol ei hun, gellir gofyn i deulu, ffrindiau neu eiriolwyr ddarparu naratif ynghylch beth mae hynny'n ei olygu i'r unigolyn ynghyd â sgôr amcanol.

Sgoriau sylfaenol

Os na fydd person yn gallu darparu sgôr sylfaenol yn erbyn ei ganlyniad(au) personol, gall aelod o'r teulu, ffrind neu eiriolwr ddarparu sgôr.

Mesur Cynnydd

Os na fydd unigolyn yn gallu mesur y cynnydd a wnaed, **rhaid** gofyn i deulu, ffrindiau neu eiriolwyr ddarparu naratif a gellir gofyn iddynt ddarparu sgôr.

Os bydd unigolyn ac ymarferydd yn nodi sgoriau gwahanol, dylid cofnodi sgôr yr unigolyn a gall yr ymarferydd gofnodi ei benderfyniad yn y ffeil achos.

Os bydd unigolyn ac aelod o'i deulu, ffrind neu eiriolwr yn nodi sgoriau gwahanol, dylid cofnodi sgôr yr unigolyn a gall yr ymarferydd gofnodi'r sgôr arall yn y ffeil achos.

Os bydd ymarferydd ac aelod o'r teulu, ffrind neu eiriolwr yn nodi sgoriau gwahanol, dylai'r sgôr a nodwyd, a ddarparwyd gan y rhai sy'n cefnogi'r unigolyn ar ei ran, gael ei chofnodi a dylid cofnodi unrhyw wahaniaethau yn y ffeil achos.

Cyflawni canlyniadau personol

Pryd y cyflawnir canlyniad personol?

Rhaid i awdurdodau lleol gofnodi'r hyn y mae person am ei gyflawni mewn perthynas â phob canlyniad personol, dyna'r amcan i'r person hwnnw. Wrth gynllunio gofal, gallai hyn newid, a dylai awdurdod lleol gadw cofnod o hyn. Bydd person yn cyflawni ei ganlyniad personol pan fydd yn cyrraedd ei sgôr amcanol.

Mewn rhai achosion, yr hyn sy'n bwysig i berson yw cynnal ei lefel bresennol o lesiant neu arafu neu atal y lefel honno os yw'n debygol o ddirywio. Os felly, gall sgôr amcanol person fod yr un peth â'i sgôr sylfaenol, a dylai camau anelu at helpu'r person i gynnal y sgôr hon, a all fod o dan 10. Mewn achos o'r fath, ystyrir bod cynnal y sgôr yn cyflawni canlyniad personol.

Beth sy'n digwydd os bydd canlyniad personol yn newid?

Gall canlyniadau personol newid pan adolygir y cynllun gofal a chymorth, neu'r cynllun cymorth.

Ar gyfer canlyniadau personol nad ydynt yn briodol mwyach neu a ddisodlwyd gan ganlyniad gwahanol, dylid cofnodi'r rhesymau dros y newidiadau.

Dylai unrhyw ganlyniadau personol newydd gael eu cofnodi a dylid cofnodi sgoriau sylfaenol ac amcanol.

Pan fydd cynllun gofal a chymorth (neu gynllun cymorth) yn dod i ben, dylid cofnodi sgôr derfynol ar gyfer pob canlyniad. Dylai gwerthusiad o'r graddau y cyflawnwyd y canlyniadau personol gael ei gynnwys yn y datganiad cau.

Adrodd yn genedlaethol ar ganlyniadau personol

A adroddir yn genedlaethol i Lywodraeth Cymru ar y data?

Ni ddylai cofnodi data mewn perthynas â chynnydd/pellter a deithiwyd lywio'r asesiad na'r broses cynllunio gofal. Rhaid i fesur cynnydd ddeillio o'r sgwrs rhwng ymarferwyr ac unigolyn a rhaid ei ddefnyddio fel ffordd o helpu pobl i benderfynu ar yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy, y pethau y gallant eu gwneud i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy a rhoi cyfle i bobl fyfyrto ar y pethau y maent yn eu gwneud i gyflawni llesiant.



Nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol adrodd i Lywodraeth Cymru ar unrhyw sgoriau unigol. Ni fydd gwybodaeth am ganlyniadau personol a gynhwyd yn genedlaethol yn ofynnol yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Ddeddf. Cynhelir trafodaethau ag awdurdodau lleol mewn perthynas â chynnydd ac adroddiadau cenedlaethol yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf.

Atodiad A - Enghreifftiau o ddulliau o fesur cynnydd yn erbyn canlyniadau personol

Dull monitro cynnydd canlyniadau a ddefnyddiwyd yn rhaglen beilot SSIA

Outcome No.	Personal outcome description	Self-assessment scores/dates							For CPSS Use				
		B	R1	R2	R3	R4	R5	R6	Goal	Concur with score?	Progress made?	Outcome achieved?	Outcome withdraw?
1		Scores								<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
		Dates								Main aspect of wellbeing*	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2		Scores									<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
		Dates								Main aspect of wellbeing*	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Dull Cofnodi Caerffili

Our Family Outcomes	
Family Name:	<input style="width: 60%;" type="text"/>
Date:	<input style="width: 60%;" type="text"/>
Outcome Number	Overall outcome that needs to be achieved
<input style="width: 100%; height: 40px;" type="text"/>	
Statement of the problem: (this statement needs to be behaviourally specific to what was observed or reported and the impact on the child/children)	
<input style="width: 100%; height: 60px;" type="text"/>	
Where are we now? (please circle)	
	
What does this look like?	
<input style="width: 100%; height: 60px;" type="text"/>	
Where do we want to be? (please circle)	
	
What does this look like?	
<input style="width: 100%; height: 60px;" type="text"/>	

Dull Cofnodi Castell-nedd Port Talbot



Neath Port Talbot Social Services, Health and Housing - Child Outcomes


Childs Name & ID:		Date:	
-------------------	--	-------	--

Outcome Number	Outcome that needs to be achieved	Main Aspect of Well-Being (Please select one)
		<ul style="list-style-type: none"> • Achieving Potential • Being Healthy & Active • Being Protected from Abuse / Neglect • Being Happy • Being Informed • Being Safe • Learning and Developing

Statement of the problem:


(this statement needs to be behaviourally specific to what was observed or reported and the impact on the child/children)

Baseline Score - Where are we now? (Please circle)



What does this look like?

Goal Score - Where do we want to be? (Please circle)



What does this look like?

Concur with Baseline Score: If No, please provide SW score (0-10):